Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad Amgylcheddol

2025

Polisi amgylcheddol

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar, ond yn cael ei ariannu gan, Senedd Cymru a Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Rydym yn gyfrifol am gynnal arolygiadau statudol ac adrodd ar ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Hefyd, rydym yn darparu cyngor penodol i Lywodraeth Cymru a Medr i ymateb i gylch gwaith blynyddol.

Ar 31 Mawrth 2025, roeddem yn cyflogi 149 o bobl, gan gynnwys staff parhaol a chyfnod penodol a secondeion / staff asiantaeth. Mae polisi amgylcheddol Estyn yn cwmpasu holl weithgareddau'r sefydliad. Mae Estyn yn ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd, gwella ei reolaeth a'i berfformiad amgylcheddol yn barhaus, bodloni cydymffurfiaeth a rhwymedigaeth amgylcheddol (yn rheoleiddiol ac yn wirfoddol) ac atal llygredd.

Mae Estyn wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, o gludiant fel arfer, a chynhyrchu gwastraff. Byddwn yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, trwy ymrwymo i set gynhwysfawr o amcanion amgylcheddol:

1 Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r CO2 a gynhyrchir, gan anelu at ostwng ymhellach ein hallyriadau a chyfrannu at darged sero net sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.

2 Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LlC) "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.

3 Yn unol ag ymrwymiad LlC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).

4 Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy'n cyfrannu at y targed lleihau CO2 (amcan 1).

5 Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a'r staff.

6 Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Mae'r polisi hwn yn cael ei rannu gyda'n holl staff, a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan. Bydd y Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol, o leiaf.

Owen Evans
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

31 Hydref 2025

Ein prif lwyddiannau yn 2024-2025...

Sero net erbyn 2030

Parhaom i wella effeithlonrwydd ynni a monitro allyriadau, gan gefnogi nod sero net y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer 2030. Mae mesurau parhaus yn cynnwys cynlluniau teithio cynaliadwy, caffael gwyrddach, arferion swyddfa sy'n effeithlon o ran ynni a mentrau ymddygiad carbon isel.

Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi

Am y seithfed flwyddyn yn olynol, cyflawnom ein nod i anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi. Cafodd yr holl ffrydiau gwastraff eu hailgylchu neu eu trosi'n ynni trwy bartneriaid cynaliadwy fel Viridor Trident Park ac ECycle. Yn 2024–2025, ailgylchom 332 cilogram arall o offer TG, gan ddangos perfformiad cryf parhaus o ran rheoli gwastraff cynaliadwy.

Lleihau gwastraff

Gostyngodd cyfanswm y gwastraff i 1,735 cilogram, i lawr o 2,222 cilogram yn 2023-2024. Arweiniodd mwy o weithio digidol, recriwtio di-bapur a digwyddiadau ar-lein i randdeiliaid at gynhyrchu llai o wastraff. Mae defnyddio llai o bapur ac arlliw, ynghyd â chyhoeddi adroddiadau'n electronig, wedi ymwreiddio diwylliant gwastraff isel, cynaliadwy ar draws y sefydliad.

Lleihau ein heffaith o ran trafnidiaeth

Trafnidiaeth oedd ein ffynhonnell fwyaf o allyriadau o hyd, gan gyfrif am 87% o gyfanswm yr allbwn CO_2. Cynyddodd milltiroedd busnes i 383,900 oherwydd gweithgarwch arolygu ehangach. Fodd bynnag, anogwyd rhannu ceir a helpodd cynllunio adnoddau i leihau pellteroedd teithio, lle bo hynny'n bosibl, gan gefnogi ymdrechion parhaus i leihau allyriadau.

Cynaliadwyedd ehangach

Mae arolygiadau'n asesu pa mor effeithiol y mae darparwyr addysg yn ymgorffori cynaliadwyedd, amrywiaeth a dinasyddiaeth fyd-eang. Caiff ysgolion a cholegau eu cydnabod am addysg hinsawdd a chydraddoldeb gref, gan gynnwys eco-bwyllgorau a dylunio cwricwlwm cynhwysol. Mae ein canfyddiadau'n amlygu sut mae addysg yn cefnogi dinasyddion moesegol, gwybodus ac yn hybu dealltwriaeth o gynaliadwyedd ac amrywiaeth ddiwylliannol ledled Cymru.

Caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol

Rydym yn parhau i gryfhau caffael cynaliadwy yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae meini prawf amgylcheddol wrth wraidd contractau, gan hybu egwyddorion economi gylchol. Mae prosesau digidol wedi dileu contractau papur, lleihau allyriadau a sicrhau bod pob cyflenwr yn cyfrannu at lesiant amgylcheddol a chymdeithasol.

Pwy ydym ni

Yn Estyn, mae ein nod yn syml: sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael yr addysg a'r hyfforddiant gorau posibl. Rydyn ni yma 'Dros ddysgwyr, dros Gymru'. Rydym yn canolbwyntio ar welliant parhaus, cydweithio ac arloesi i gyflawni hyn.

Rydym yn darparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru, Medr a dinasyddion Cymru. Mae ein blaenoriaethau, sy'n nodi ein cenhadaeth a gweledigaeth, ein hamcanion strategol a'n gwerthodd ar gael ar ein gwefan.

Mae'r adran amdanom ni ar ein gwefan yn esbonio ymhellach y gwaith a wnawn.

Newid yn yr hinsawdd

Dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 (fel y'i diwygiwyd), rhaid i'r DU gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050 (targed ar wahân yr Alban yw 2045). Mae adroddiad cynnydd diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC), Progress in reducing emissions 2024, (Gorffennaf 2024) yn rhybuddio mai dim ond tua thraean o'r gostyngiadau sydd eu hangen ar gyfer targed 2030 y DU sy'n cael eu cefnogi gan bolisïau credadwy, gan nodi bod gostyngiadau polisi diweddar a chyfyngiadau ariannu yn risgiau allweddol.

Yn ei adolygiad addasu statudol cyntaf, Progress in adapting to climate change: 2025 report, (Ebrill 2025) barnodd CCC fod paratoadau'r DU ar gyfer effeithiau hinsawdd sy'n gwaethygu yn annigonol, hefyd, ac anogodd gamau gweithredu cyflymach a mwy cydlynol. Er mwyn tynhau crafft, lansiodd y Pwyllgor Fframwaith Monitro Camau Lliniaru newydd yn Adroddiadau Cynnydd (Sero Net) ym mis Mehefin 2025.

Felly, mae cyflawni sero net yn dibynnu ar ymdrech gydgysylltiedig gryach gan Lywodraeth y DU a'r holl weinyddiaethau datganoledig o hyd.

Ymrwymiadau trosfwaol a deddfwriaeth yng Nghymru

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- Mae'n pennu terfyn amser o 2050 ar gyfer sero net ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau cyllideb carbon interim.
- Mae gan Gymru dargedau carbon interim (Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021) ar gyfer gostyngiad carbon o 63% erbyn 2030 ac 89% erbyn 2040 (yn erbyn gwaelodlinau 1990/1995).

- Mae'n cyflwyno dyletswydd adran 6: rhaid i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Estyn, meddwl am fioamrywiaeth ac ecosystemau mewn cynlluniau, prosiectau ac yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Dylai'r ddyletswydd adrodd fod yn rhan o'n systemau adrodd cyffredin.

- Rhaid i ni gyhoeddi cynllun gweithredu (ein polisi amgylcheddol) ac adroddiad cynnydd cryno bob tair blynedd (ein hadroddiad amgylcheddol).

Sector cyhoeddus sero net erbyn 2030

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob corff cyhoeddus fod yn garbon niwtral yn eu gweithrediadau eu hunain erbyn 2030 (uchelgais gyfunol).

Economi gylchol a gwastraff

- Nod y strategaeth economi gylchol, 'Mwy nag Ailgylchu' yw cyrraedd dim gwastraff erbyn 2050 a symud i ffwrdd o ddiwylliant defnydd untro. Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 yn cyflwyno gwaharddiadau'n raddol ar gynhyrchion plastic untro sy'n cael eu gwaredu'n gyffredin.

- Mae Tuag at ddyfodol diwastraff (strategaeth wastraff gyffredinol Cymru) yn nodi polisïau a thargedau lefel uchel Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru.

- Mae Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn orfodol i swyddfeydd a safleoedd annomestig eraill wahanu deunyddiau ailgylchadwy yn y ffynhonnell.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

- Yn ymgorffori saith nod llesiant cenedlaethol ac "egwyddor datblygu cynaliadwy". Bydd cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn meysydd allweddol fel caffael, cynllunio'r gweithlu a chyllid, hefyd yn helpu i gyflawni'r agenda datgarboneiddio.

Mae Cymru'n arloesi: creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach hefyd yn amlinellu strategaeth arloesi Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Beth mae hyn yn ei olygu i Estyn

- Rydym yn plethu meddylfryd cynaliadwy, bioamrywiaeth, carbon ac economi gylchol i bolisïau, arolygiadau, adolygiadau thematig a'n gweithrediadau bob dydd.

- Rydym yn cyhoeddi ac yn diweddaru ein cynllun bioamrywiaeth Adran 6 a'n hadroddiad amgylcheddol tair blynedd yn rhan o'n systemau adrodd cyffredin - ein polisi a'n hadroddiad amgylcheddol.

- Rydym yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy, yn lleihau cynhyrchion plastig untro ac yn gweithio tuag at darged sero net y sector cyhoeddus erbyn 2030.

- Mae ein hymdrechion wedi'u hategu gan achrediad parhaus Lefel 3 y Ddraig Werdd, gan ddangos rheolaeth amgylcheddol gadarn.

AI a'r amgylchedd

- Wrth i'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) gynyddu, mae'r galw am seilwaith sy'n ddwys o ran ynni yn parhau i gynyddu, gan waethygu newid yn yr hinsawdd a threuliant adnoddau. Byddwn yn defnyddio AI yn ddoeth ac yn archwilio ffyrdd i leihau effaith niweidiol yn rhan o reolaeth amgylcheddol effeithiol e.e. defnyddio canolfannau data sy'n defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy. Byddwn yn dylanwadu ar ein partneriaeth trwy ofyn i gwmnïau AI fod yn fwy tryloyw ynghylch effeithiau amgylcheddol AI.

- Mae ein safbwynt ar AI wedi'i nodi ar ein gwefan Deallusrwydd Artiffisial - Estyn.

Cysylltiadau ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP)

Yn unol â chyngor arweiniad adran 6, mae ein gweithgareddau'n cyd-fynd â'r amcanion perthnasol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru (NRAP). Mae amcanion NRAP yn adlewyrchu'r Confensiwn byd-eang ar Amrywiaeth Fiolegol. Ar gyfer cyrff sydd wedi'i seilio mewn swyddfeydd fel Estyn, mae arweiniad adran 6 yn tynnu sylw at dri amcan NRAP:

- Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

- Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

- Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Mae ein hadroddiad amgylcheddol yn dangos sut mae'n gweithredoedd yn cysylltu â'r amcanion hyn.

Gan nad ydym yn rheoli tir yn uniongyrchol, mae ein hymdrechion bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar leddfu pwysau—er enghraifft, lleihau carbon, prynu cynhyrchion lleol a chynaliadwy, ac arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau.

Amcanion amgylcheddol 2025-2026

Byddwn yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, trwy ymrwymo i set gynhwysfawr o amcanion amgylcheddol:

1 Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r CO2 a gynhyrchir, gan anelu at ostwng ymhellach ein hallyriadau a chyfrannu at darged sero net sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.

2 Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LlC) "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.

3 Yn unol ag ymrwymiad LlC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).

4 Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy'n cyfrannu at y targed lleihau CO2 (amcan 1).

5 Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a'r staff.

6 Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Ein perfformiad 2024-2025

Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r CO_2 a gynhyrchir, gyda'r nod o leihau ein hallyriadau ymhellach gan gyfrannu at darged sero net y sector cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2030.

Allyriadau CO_2:

Gwaelodlin Estyn	2017 - 2018	153,727 kg CO_2
Targed	**cyfrannu at darged sero net y sector cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2030**	
Gwirioneddol	2018 - 2019	102,660 kg CO_2
	2019 - 2020	120,709 kg CO_2
	2020- 2021	9,819 kg CO_2 (COVID)
	2021-2022	60,068 kg CO_2

2022-2023	92,588 kg CO_2
2023-2024	117,466 kg CO_2
2024-2025	132,560 kg CO_2

Mae allyriadau CO2 wedi cynyddu 13% yn 2024-2025 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ein sefydliad a'n llwyth gwaith yn parhau i dyfu, ynghyd â'n gweithrediadau. Cyfanswm ein gwariant ar gyfer 2024-2025 oedd £17.121m, o gymharu ag alldro o £15.666m yn 2023-2024, sef cynnydd o 9%. Cyfanswm y gwariant yn 2022-2023 oedd £13.10m. Mae costau staff ar gyfer 2024-2025 yn cynnwys swyddi ychwanegol yn yr adrannau Arolygu a Gwasanaethau Canolog, gyda nifer gyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cyflogi'n barhaol ar gyfer y cyfnod yn cynyddu 7.5%, tra bod nifer y cydweithwyr asiantaeth ac ar secondiad wedi cynyddu 24%.

Eleni, ar ôl cynllunio ac ymgynghori'n ofalus, gwnaethom newidiadau sylweddol wrth i ni lansio ein fframweithiau arolygu newydd ar draws llawer o'n sectorau. Roedd cyflwyno'r Ymweliad Interim mewn ysgolion ac UCDau yn gyflawniad nodedig. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ledaenu ein hadroddiad blynyddol a chanfyddiadau thematig yn well trwy ystod o gyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau. Parhaom ag arolygiadau ar y cyd ag ystod o asiantaethau. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, gan roi cyngor yn ffurfiol trwy ein gwaith thematig a chymorth ar gyfer blaenoriaethau allweddol, ond hefyd yn anffurfiol wrth iddynt ddatblygu polisi addysg.

Wrth i ni gefnogi gwelliant ar draws darparwyr a sectorau unigol gyda mwy o ymgysylliad rheolaidd, gan gynnwys Ymweliadau Interim, mae'n anochel y bydd ein harolygwyr yn teithio mwy ac mae'n debyg y byddwn yn cynnal (o bosibl yn cynyddu) ein hallyriadau teithio. Mae manylion am ein hallyriadau teithio a'r mentrau rydym yn eu hyrwyddo i gefnogi gostyngiad yn ein hallyriadau CO2 teithio wedi'u nodi'n fanylach yn adran 4 isod.

Mae cyfran yr allyriadau CO2 a gynhyrchwyd o nwy, trydan a theithio ar gyfer y cyfnod i'w gweld isod:



Rydym yn parhau i ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon, ond mae hyn yng nghyd-destun mwy o weithgarwch.

Bydd mesurau parhaus - gan gynnwys cynlluniau teithio cynaliadwy, caffael gwyrddach, cynllunio ynni strategol, arferion swyddfa effaith isel, arloesiadau technegol a mentrau newid ymddygiad - yn parhau i sbarduno gostyngiadau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi lleihau ein gofod swyddfa, cyflwyno gweithio hybrid ar gyfer staff gwasanaethau canolog (o fis Chwefror 2022), hybu teithio llesol a chynllun ceir gwyrdd, cynyddu gweithgarwch ar-lein a lleihau'r defnydd o bapur trwy atebion digidol a chaffael gwell. Rydym hefyd yn ymgorffori ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ar draws ein prosesau arolygu.

Mae ffigurau ein hallyriadau yn parhau i fod wedi'u seilio ar ein hamgylchedd swyddfa a'r ffaith ein bod wedi symud i drefniant gweithio hybrid ar gyfer ein staff sy'n gweithio yn y swyddfa.

Mae'r graff isod yn dangos y duedd o ran allyriadau dros yr wyth blynedd diwethaf:



Cyfanswm yr allyriadau CO_2 yn 2024-2025 oedd 132,560 kg CO2.

Mae effaith pandemig COVID-19 yn amlwg yn 2020-2021, pan roedd ein swyddfa ar gau am gyfnod a chafodd teithio ei atal. Mae'r cynnydd mewn allyriadau ers hynny yn dilyn dychwelyd i'n gweithrediad busnes a chynnydd yn ein cylch gwaith a theithio dilynol. Mae ein heffaith fwyaf o ganlyniad i deithio o hyd – 115,604 kg CO2 yn 2024-2025, sef cynnydd o 103,082 kg CO2 yn 2023-2024.

O ran trydan, er 2023, cyflwynodd y landlord gontract trydan newydd ar draws yr adeilad. Caiff y taliad am ddefnyddio trydan yn yr adeilad ei ddosrannu gan y landlord rhwng y tenantiaid a'i dalu'n uniongyrchol iddo. Tan hynny, roeddem wedi gallu cael trydan yn uniongyrchol ac wedi elwa ar gontract ynni Gwasanaeth Masnachol y Goron Cymru Gyfan – sef contract ynni glân nad yw ar gael i'r landlord ac y gellid ei adrodd fel dim allyriadau.

Erbyn hyn, mae'r defnydd o drydan yn ein swyddfa yn cyfrannu at ein hallyriadau CO2 (9% o gyfanswm ein hallyriadau). Roedd ein hallyriadau cwmpas 2 ar gyfer trydan yn 11,344 kg CO2 yn 2024-2025.

Mae'r graff isod yn dangos cyfanswm y trydan a ddefnyddiwyd.



Caiff y taliad am ddefnyddio nwy yn yr adeilad ei ddosrannu gan y landlord rhwng y tenantiaid a'i gynnwys yn ein cost gwasanaeth. Roedd yr allyriadau CO_2 o ddefnyddio nwy yn 5,612 kg CO2 yn 2024-2025. Mae'r graff isod yn dangos y defnydd o nwy.

Mae lleihau maint ein swyddfa ar ôl y pandemig a symud i drefniant gweithio hybrid ar gyfer ein staff swyddfa o fis Chwefror 2022 wedi effeithio ar ein defnydd o drydan a nwy. Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.



Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LlC) "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.

Ers 2018-19, nid ydym wedi anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi a'n nod yw cynnal y safon hon.

Mae gennym nifer o sianeli gwaredu ailgylchu/adfer ynni[1] ar gyfer ystod amrywiol o ffrydiau gwastraff:

- caiff papur, caniau alwminiwm, poteli plastig a gwastraff bwyd eu hailgylchu gan ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor
- caiff offer TG ei ailgylchu gan ddefnyddio menter fach leol, sef Ecycle
- caiff ein 'gwastraff bagiau duon' ei losgi yn llosgydd Viridor Trident Park, gan adfer ynni
- gwastraff glanweithiol – yn 2017-18, fe wnaethom adrodd mai gwastraff glanweithiol oedd ein ffrwd wastraff olaf a oedd yn mynd i safleoedd tirlenwi o hyd ac, yn ystod y flwyddyn honno, cyflwynodd ein darparwr gwasanaeth, PHS, broses rheoli gwastraff gynaliadwy batentedig, lle caiff ynni ei adfer o'r gwastraff ar ffurf Tanwydd yn Deillio o Sbwriel (RDF).

[1] Ailgylchu/adfer ynni Estyn ar sail pwysau mewn kg o wastraff



Mae'r siart isod yn dangos yn fanylach gyfran y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi o gymharu â phob un o'n ffrydiau gwastraff wedi'i ailgylchu ar gyfer y cyfnod o naw mlynedd:

Cyfran pob ffrwd gwastraff wedi'i ailgylchu o gymharu â thirlenwi 2016-2017 i 2024-2025



Gwastraff a gynhyrchwyd (kg)

Fe wnaethom hefyd ailgylchu 332 kg o offer TG yn ychwanegol yn 2024-2025.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

Yn unol ag ymrwymiad LlC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).

Gwaelodlin 2013-2014:	**8,080 kg o sgil-gynnyrch gwastraff blynyddol (R-5,767 kg/L-2,313 kg)**
Targed:	**Gostyngiad o 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050.**
2014-2015:	6,891 kg (R-5,456 kg/L-1,435 kg)
2015-2016:	9,175 kg (R/ER-8,319 kg/L-856 kg)
2016-2017	7,847 kg (R/ER 7,301 kg/L 546 kg)
2017-2018	5,774 kg (R/ER 5,228 kg/L 546 kg)
2018-2019	6,003 kg (R/ER)
2019-2020	6,263 kg (R/ER)
2020-2021	456 kg (rhannol amcangyfrifedig R/ER)
2021-2022	2,395 kg (rhannol amcangyfrifedig R/ER)
2022-2023	1,879 kg (R/ER)
2023-2024	2,222 kg (R/ER)
2024-2025	1735 kg (R/ER)



Sylwer bod swm y sgil-gynhyrchion gwastraff yn ystod y cyfnod 2020-2021 a 2021-2022 wedi'i amcangyfrif ar sail presenoldeb cyfyngedig staff yn y swyddfa. Mae ein swm cymharol isel o wastraff a gynhyrchir yn cael ei gynnal. Bu symud i fwy o weithio electronig a'r gostyngiad mewn deunydd printiedig yn ffactorau allweddol wrth leihau cyfanswm y gwastraff swyddfa.

Rydym hefyd wedi dangos ymrwymiad cyson i leihau gwastraff yn ein prosesau recriwtio a chaffael, trwy gynnal pob ymgyrch yn electronig, a thrwy ein defnydd o gyfathrebu electronig ar gyhoeddiadau allanol ac wrth ddarparu deunyddiau hyfforddi i arolygwyr allanol.

Mae mentrau ymgorfforedig ychwanegol yn cynnwys:

- Microsoft SharePoint, sef platfform ar gyfer ein TGCh sy'n cefnogi cydweithio ac yn cynnwys ystafell arolygu rithwir ar gyfer rhannu gwybodaeth arolygu rhwng darparwyr ac Estyn
- Dosbarthu adroddiadau arolygu yn electronig i Aelodau'r Senedd a darparwyr
- Cylchlythyrau mewnol ac allanol ar-lein yn hytrach na fformatau printiedig
- Dosbarthu dogfennau corfforaethol ac adroddiadau cylch gwaith yn electronig, gan ddileu'r angen i argraffu copïau papur

Cynhelir rhai digwyddiadau i randdeiliaid ar-lein hefyd, sy'n cyfrannu at leihau ein hallyriadau CO2. Yn 2024-2025, o blith 21 o ddigwyddiadau i randdeiliaid, cynhaliwyd 9 ohonynt ar-lein ac o 43 o ddigwyddiadau hyfforddiant allanol, cynhaliwyd 6 ohonynt ar-lein. Cynhaliom 4 digwyddiad hyfforddiant mewnol arall, y cynhaliwyd 2 ohonynt wyneb-yn-wyneb a 2 ohonynt wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Mae'r siart isod yn dangos y gostyngiad yn y defnydd o bapur a chetris argraffu er 2017-2018 wrth i ni symud i amgylchedd gweithio di-bapur:



Defnydd gwirioneddol o bapur (nid y papur a archebwyd)

Cyfanswm y gwariant ar wastraff yn 2024-2025 oedd cc £3,500 (£4,715.75 yn 2023-2024) – roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau'r cyngor lleol a gwasanaeth ailgylchu arbenigol ar gyfer 'gwastraff sensitif oddi ar y safle'. Trosglwyddwyd gwasanaeth ailgylchu'r cyngor lleol i'r landlord o fis Mai 2024 ymlaen.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy'n cyfrannu at y targed i leihau CO_2 (amcan 1).

Mae ein prif effaith ar yr amgylchedd yn deillio o allyriadau CO_2 o gludiant pan fydd ein harolygwyr yn ymweld â darparwyr addysg a hyfforddiant.

Mae milltiredd Estyn wedi cynyddu'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, cyfanswm ein hallyriadau o ddefnyddio ceir busnes oedd 105,923 kg CO2 yn 2024-2025 (101,814 kg CO2 yn 2023-2024 / 86,275 kg CO2 yn 2022-2023) a theithiwyd 383,900 o filltiroedd yn ystod y cyfnod, o gymharu â 367,814 o filltiroedd yn 2023-2024 a 304,663 o filltiroedd yn 2022-2023.

Gweler y siart isod.



Sylwer: mae elfen fechan ychwanegol o filltiredd hybrid/trydan busnes, sef 32,115 milltir yn 2024-2025 (8% o gyfanswm y milltiredd).

Mae gennym ni Gynllun Ceir Gwyrdd (prydlesi cerbydau trydan) ac mae chwe aelod o staff yn manteisio ar y cynllun. Mae'r cynllun wedi'i oedi ar hyn o bryd. Mae ein Polisi ar gyfer gyrru fel rhan o ddyletswyddau swyddogol yn cynnwys arfer dda ar sut gall gyrwyr leihau allyriadau, yn ogystal â chyngor ar ddiogelwch. Caiff staff eu hannog i rannu ceir ac rydym yn cynllunio ein hadnoddau i leihau teithio, ble bynnag y bo modd.

Mae allyriadau cludiant blynyddol (car, rheilffordd ac awyr) yr arolygiaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i'w gweld isod. Cyfanswm yr allyriadau CO2 ar gyfer cludiant yn 2024-2025 oedd 115,604 kg CO2, gan gynnwys car, awyr a rheilffordd. Mae teithio ar drenau yn anaml, gyda dwy daith wedi'u cofnodi yn 2024-2025 (464kg Co2). Mae ein gwaith rhyngwladol yn gofyn am deithio mewn awyrennau, gyda 6 thiaith yn 2024-2025 (9,217kg CO2).



Fel y nodwyd uchod, parhaodd allyriadau cludiant i gyfrif am y gyfran fwyaf o'n hallyriadau CO_2 – 87% yn 2024-2025.

Mae effaith ein cludiant yn sylweddol gan ein bod yn arolygiaeth sy'n cwmpasu Cymru gyfan, ac mae gennym gylch gweithgarwch eang sy'n parhau i dyfu.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a staff.

Llywodraethu ac atebolrwydd:

- Mae gan y Grŵp Rheoli Strategol, sy'n cael ei gadeirio gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, gyfrifoldeb cyffredinol dros gynaliadwyedd a bodloni dyletswydd bioamrywiaeth statudol Estyn.

- Mae'r uwch arweinydd cynaliadwyedd – sef y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Arolygu a Gwasanaethau Canolog – yn eistedd ar y Grŵp Rheoli Strategol ac yn gweithredu fel yr arweinydd gweithredol dros gynaliadwyedd (gan gynnwys y ddyletswydd bioamrywiaeth).

- Y Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd yw'r Pennaeth Llywodraethu ac mae'n cefnogi'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Arolygu a Gwasanaethau Canolog yn eu rôl fel arweinydd gweithredol ar gyfer cynaliadwyedd.

Goruchwyliaeth weithredol

- Y Grŵp Gweithredol (GG) – Wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Arolygu a Gwasanaethau Canolog – yn arwain ar gyflenwi o ddydd i ddydd ac yn datblygu polisïau rheoli. Mae hefyd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Adroddiad Amgylcheddol blynyddol hwn. Mae'r aelodau'n cynnwys dau Gyfarwyddwr Cynorthwyol (sy'n cylchdroi) a phob rheolwr Gradd 7.

- Mae'r Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau (GCG), sydd hefyd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Arolygiadau a Gwasanaethau Canolog, yn trafod materion busnes gweithredol, yn pennu amcanion a thargedau gwella amgylcheddol ac yn olrhain camau gweithredu. Mae'r aelodau'n cynnwys staff gwasanaethau corfforaethol ar radd Swyddog Gweithredol Uwch (HEO) ac uwch.

Systemau rheoli amgylcheddol

- Mae'r Swyddog Gwasanaethau Swyddfa yn partneru â'r Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd i gynnal ein system rheoli amgylcheddol.

- Mae'r tîm Gwasanaethau Swyddfa yn cadw cofnodion dyddiol ar gyfer gwastraff, defnydd papur a deunyddiau ysgrifennu, a defnydd ynni.

- Mae'r tîm Caffael yn cynnal cofnodion teithio staff ac yn parhau i integreiddio meini prawf cynaliadwyedd ym mhob gweithgarwch prynu.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 6 Cynllun Adfer Natur Cymru.

Codi ymwybyddiaeth

Yn ystod 2024-2025, cyflwynodd Estyn arweiniad arolygu newydd mewn llawer o sectorau. Mae'r trefniadau newydd hyn yn cynnwys cyflwyno 'cipolygon' mewn adroddiadau sy'n canolbwyntio ar enghreifftiau o arfer effeithiol. Wrth arolygu ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), mae arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn dylunio ac yn cyflwyno cwricwlwm sy'n helpu disgyblion i ddeall hanes, treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Hefyd, mae arolygwyr yn ystyried sut mae ysgolion yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd gwahanol, gan gynnwys LHDTC+ a sut mae disgyblion yn datblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach a deall effaith y penderfyniadau hyn.

Yn aml, mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion byd-eang trwy faes dysgu a phrofiad y dyniaethau. Caiff pynciau'r dyniaethau eu defnyddio'n gyfrwng i helpu disgyblion i ystyried safbwyntiau byd-eang, eu helpu i feithrin ymdeimlad o le a pherthyn ac ystyried datblygiad ysbrydol. Lle bu Cwricwlwm i Gymru yn fwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr wedi sicrhau bod digon o amser addysgu yn cael ei ddyrannu i'r dyniaethau a bod pob un o'r pum datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu hystyried a'u datblygu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau pwnc ar draws y dyniaethau. Weithiau, mae hyn o ganlyniad i gynllunio gwael, diffyg dysgu proffesiynol ar gyfer agweddau penodol ar y dyniaethau neu ddiffyg staff arbenigol, yn enwedig yn y sector uwchradd.

Mewn llawer o achosion, wrth ddatblygu eu cwricwlwm, mae ysgolion yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'n ddinasyddion moesegol, gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a hawliau plant. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Ffynnon Taf wedi datblygu cwricwlwm cyfoethog a difyr dros ben sy'n helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth gadarn am eu hardal leol, dealltwriaeth gadarn o faterion byd-eang a'r medrau i gyfranogi'n ddinasyddion gweithredol mewn byd amrywiol. Mae disgyblion iau yn archwilio problemau lefelau dŵr sy'n codi pan fyddant yn cael llythyr gan Siôn Corn am gapiau iâ'n toddi. Mae disgyblion hŷn yn ystyried effaith ffasiwn gyflym am bobl a lleoedd ac yn dod o hyd i ffyrdd i eirioli dros newid. Yn yr ychydig enghreifftiau gorau o ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ystyried safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol ar bynciau pwysig, fel cost a bywyd a marwolaeth.

Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang a medrau arwain. Yn aml, mae'r cyfleoedd hyn yn helpu disgyblion i fyfyrio ar faterion fel cynaliadwyedd, cynhesu byd-eang, lleihau ôl troed carbon a diogelu'r amgylchedd. Er enghraifft, mae'r eco-bwyllgor yn Ysgol Gyfun Rhydywaun, dan arweiniad disgyblion, yn hybu cynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol yn effeithiol ar draws cymuned yr ysgol. Mae disgyblion yn Ysgol Uwchradd Castell Alun wedi datblygu pecyn cymorth newid hinsawdd ac wedi elwa ar gyfleoedd yn y cwricwlwm i ystyried cwestiynau fel 'Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar dwristiaeth fyd-eang?' a 'Twristiaeth yng Nghenia: da neu ddrwg?'

Mae llawer o ysgolion yn dechrau ystyried cyfraniad pobl a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i Gymru a'r byd ehangach. Yn yr ychydig o enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm i helpu disgyblion i gydnabod effaith gadarnhaol amrywiaeth, fel cyfraniad Harriet Tubman, Betty Campbell a chenhedlaeth Windrush. Er enghraifft, mae'r ffordd y mae disgyblion yn Ysgol Uwchradd Fitzalan yn datblygu eu dealltwriaeth o hanesion, storïau a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gryfder nodedig. Mae disgyblion yn dysgu am y Ffordd Sidan a'r ymerodraeth Otomanaidd, Islamaffobia, Mae Bywydau Du o Bwys, Prydain aml-ffydd a phrofiad y gymuned Roma. Mae ychydig o ysgolion yn cynllunio cyfleoedd arbennig o effeithiol i ddisgyblion ystyried barn a gwerthoedd y gymuned LHDTC+ yn y cwricwlwm. Er enghraifft, mae staff yn Ysgol Gyfun y Pant yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried effaith artistiaid LHDTC+ ar y diwydiant cerddoriaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion yn ystyried yn ddigon da sut maent yn addysgu disgyblion am amrywiaeth. Mae hyn yn arwain at athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ymwneud â diwylliannau a phrofiadau yr oedd disgyblion yn yr ysgol eisoes yn gyfarwydd â nhw. Nid yw'r arferion hyn yn cefnogi disgyblion yn ddigon da i ddatblygu dealltwriaeth o'r diwylliannau amrywiol yng Nghymru, y tu mewn a'r tu allan i'w cymunedau, ac nid ydynt yn helpu disgyblion i greu cysylltiadau ar draws eu dysgu.

Mae arweinwyr mewn llawer o ysgolion wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddisgyblion. Mewn ysgolion lle mae darpariaeth yn gryf, mae arweinwyr a staff yn gweithio'n effeithiol â theuluoedd a'r gymuned. Er enghraifft, Adroddiad arolygu Ferndale Community School 2024, Adroddiad arolygu Gors Community Primary School 2024. Yn aml, mae ysgolion yn canolbwyntio'n gryf ar ddarparu cymorth lles i liniaru effaith tlodi ar ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dyrannu cyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn briodol. Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd ac ychydig o ysgolion cynradd yn canolbwyntio'n fuddiol ar bresenoldeb yn yr ysgol, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn ystyried effaith tlodi ar

gyrhaeddiad disgyblion yn ddigon da bob tro. Cyhoeddom fersiwn gyfredol o'n hadroddiad Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ym mis Mai 2025. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr y siaradom â nhw yn cydnabod bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol, fel y gallu i fanteisio ar gludiant ysgol am ddim os ydynt yn byw o fewn radiws o dair milltir o'r ysgol.

Yn y sector addysg bellach, mae adroddiadau arolygu'n cyfeirio at sut mae colegau'n datblygu'r cwricwlwm i gynnwys ffocws ar gynaliadwyedd. Er enghraifft, wrth ddatblygu cynnwys cyrsiau fel twristiaeth a ffasiwn. Mae cipolwg o'r adroddiad arolygu ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai yn cyfeirio at sut mae campws Glynllifon yn hybu cynaliadwyedd trwy addasu ei gyfleusterau i leihau effaith amgylcheddol ffermio llaeth, cyflwyno godro defaid ac addysgu dysgwyr sut i ddefnyddio robo-tractor awtonomaidd. Caiff dysgwyr eu cefnogi i ddatblygu'n ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Er enghraifft, yng Ngholeg Merthyr Tudful, mae'r grŵp LHDTC+ dan arweiniad dysgwyr yn arwain digwyddiadau ar draws y coleg ac mae'r rhaglen diwtorial yn cwmpasu pynciau fel gwrth-hiliaeth a bwyta'n iach.

Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Estyn integreiddio ystyriaethau amgylcheddol yn ei weithgarwch caffael dan **Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**.

Mae ein hymrwymiadau allweddol yn cynnwys:

- **Dyletswydd Gyfreithiol i Gefnogi Llesiant Amgylcheddol**:
  Rhaid i gontractau gyfrannu'n weithredol at liniaru newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy.

  Byddwn yn parhau i blethu ffactorau amgylcheddol i'n proses gaffael. Mae ein hymrwymiad i brynu sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn cefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, gan gyd-fynd â Datganiad Polisi Caffael Cymru ac amcanion ehangach Diwygio'r Broses Gaffael.

- **Cydnawsedd â Nodau Sero Net**:
  Rhaid i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru gefnogi targed Llywodraeth Cymru o **sector cyhoeddus sero net erbyn 2030**, gan gynnwys defnyddio **cynlluniau lleihau carbon** mewn caffaeliadau mawr.

- **Ymgorffori Egwyddorion Economi Gylchol**:
  Rhaid i gaffael rhoi blaenoriaeth i ddeunyddiau carbon isel, ailddefnyddio ac effeithlonrwydd adnoddau, wedi'i gefnogi gan arweiniad cenedlaethol (e.e. WRAP Cymru).

  Mae meini prawf amgylcheddol yn rhan o'n model gwerthuso tendrau, a gofynnir i gyflenwyr ddangos sut y bydd eu gwasanaethau neu gynhyrchion yn ein helpu i gyflawni ein nodau amgylcheddol, gan gyfeirio at Bolisi Amgylcheddol Estyn (sydd ar gael ar ein gwefan) am arweiniad.

- **Cost ac Allyriadau Oes Gyfan**:
  Disgwylir i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru asesu effaith amgylcheddol ar draws cylch oes llawn nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys **allyriadau Cwmpas 3**.

- **Cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**:
  Rhaid i benderfyniadau caffael hybu cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor yn unol â nodau llesiant cenedlaethol.

  Pan nad oes fframwaith addas yn bodoli neu pan nad yw gwerth amcangyfrifedig y contract yn cyfiawnhau tendr llawn, rydym yn dod o hyd i gyflenwyr trwy GwerthwchiGymru; gan roi blaenoriaeth i fentrau bach a chanolig yng Nghymru a darparwyr lleol eraill, lle bo hynny'n bosibl.

  Ar gyfer gwasanaethau arolygu, mae Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract (AYG) yn cyflwyno eu cyfraddau ac yn cael cynigion contract trwy borth ar-lein diogel. Mae'r broses ddigidol hon wedi symleiddio sut rydym yn darparu ac yn lleoli arolygwyr, gan gael gwared ar yr angen am lythyrau contract printiedig i'r naill barti a'r llall. Ein nod hefyd yw penodi arolygwyr i ddarparwyr sy'n agos at eu cyfeiriad cartref, gan helpu i leihau teithio a'r allyriadau cysylltiedig, lle bynnag y bo modd.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.